***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 1878

# Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 ac mae'n dod i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Gorchymyn 1995" yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(**1**) ac mae unrhyw gyfeiriad at Ran 24 yn gyfeiriad at y rhan o Atodlen 2 i Orchymyn 1995 sy'n dwyn y rhif hwnnw.

### Diwygiadau i Ran 24: Datblygu gan weithredwyr systemau cod telathrebu

**3.** Yn lle Rhan 24 rhowch y testun a geir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Diddymu a darpariaethau trosiannol

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymir drwy hyn erthygl 3 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) 1998(**2**) ac erthygl 3 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) 1999(**3**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

(2) Nid yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i Orchymyn 1995 gan y Gorchymyn hwn yn gymwys ar gyfer ceisiadau am ddyfarniad ynghylch a yw'n ofynnol i gael cymeradwyaeth o flaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol am leoliad ac ymddangosiad datblygiad a wnaed cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

*John Marek*
Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

18 Gorffennaf 2002

(**1**) O.S.1995/418; O.S.1998/462 ac O.S.1999/1661 yw'r offerynnau diwygio perthnasol.
(**2**) O.S.1998/462.
(**3**) O.S.1999/1661.
(**4**) 1998 p.38.